

## Canllawiau Cyflym i Ymdrin ag Eitemau Amheus e.e. Bomiau, Anthracs, ayyb. yn y Post

### Adnabod Eitem Amheus

- 📌 **Dimensiynau:** Mae llythyr ffrwydrol yn annhebygol o fod llai na 3mm (1/8 modfedd) o drwch, nac o bwysu llai na 43 gram (1½ owns).
- 📌 **Cydbwysedd/Pwysau:** Ydy'r pecyn yn union gytbwys? Dylai pecynnau sy'n anwastad eu pwysau gael eu trin ag amheuaeth. Mae'n bosib bod pecynnau sydd - o ystyried eu maint - yn anghymesur o drwm yn cynnwys dyfais ffrwydrol amatur.
- 📌 **Tyllau neu Staeniau:** Dylid ymdrin â phecynnau sydd â staeniau sain neu dyllau pin yn yr haen allanol fel rhai amheus.
- 📌 **Aroglau:** Mae gan rai deunydd ffrwydrol wynt tebyg i farsipán neu almon.
- 📌 **Sŵn:** Gall sŵn tician neu hisian fod yn arwydd o ddyfais ffrwydrol.
- 📌 **Y Llabeled:** A yw'r haen allanol wedi'i gludo i lawr yn llwyr? Os nad oes bylchau bach wedi'u gadael wrth yr ochrau, gall fod yn arwydd o eitem amheus.
- 📌 **Mathau o Amlen:** Mae profiad yn dangos bod bomiau post fel arfer yn cael eu hanfon mewn amlenni 'Jiffy' neu fathau tebyg o amlenni.
- 📌 **Pecynnu/Tâl Postio:** Oes llawer iawn o ddeunydd lapio neu selio wedi'i ddefnyddio neu ormod o ffi bostio wedi'i thalu? (I osgoi unrhyw ymholiadau ac i sicrhau na fydd y dosbarthiad yn cael ei arafu oherwydd na thalwyd y ffi bostio briodol)
- 📌 **Cynnwys 1:** Os, yn ogystal â ffactorau eraill, (anghydbwysedd, pwysau, y pecynnu ayyb) mae golwg y pecyn yn awgrymu efallai y gallai gynnwys llyfr neu gasét fideo, dylid ymdrin ag ef fel bom post neu ddyfais ffrwydrol amatur posib.
- 📌 **Cynnwys 2:** Os gellir gweld sylwedd fel powdr, gronynnau neu dywod, neu waddod neu hylif ar y tu allan i'r eitem neu'n gollwng ohoni, dylid ymdrin â'r eitem fel un amheus.
- 📌 **Labeli:** Gallai nodiadau cyfyngu megis "Personal" neu "Confidential" ddangos mai eitem amheus yw hi.

### Wedi Cael Eitem Amheus

#### Beth wnaf i?

- ✓ Os ydych chi yn y swyddfa, rhwch yr eitem i lawr yn ofalus ar yr arwyneb gwastad a llorweddol agosaf atoch neu, os oes un ar gael, rhwch hi mewn cynhwysydd arbennig ar gyfer pecynnau amheus.
- ✓ Rhybuddiwch bawb sydd gerllaw, a chliriwch yr ardal o gwmpas. (Sef parth â radiws 20m o amgylch yr eitem)
- ✓ Rhwch wybod i'ch goruchwyliwr / rheolwr llinell a fydd (os bydd angen) yn cysylltu â'r heddlu a gofyn i'r staff diogelwch am gymorth.
- ✓ Os dewch o hyd i eitem amheus wrth weithio y tu allan i'r swyddfa (Casgliadau / Dosbarthiadau ayyb) rhybuddiwch aelodau o'r cyhoedd yn y cyffiniau a rhwch yr eitem i lawr yn ofalus. Os yw'r eitem mewn blwch postio - PEIDIWCH â chlirio'r blwch, a threfnwch i'r blwch gael ei selio. Gofynnwch i'r heddlu am gymorth yn syth, drwy'r dull mwyaf cyfleus a chysylltwch â'ch goruchwyliwr wedyn.
- ✓ Os yw aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i chi gymryd eitem yn ôl sydd wedi'i ddsbarthu iddynt ac maent o'r farn bod yr eitem yn amheus, rhaid dweud wrthynt am gysylltu â'r heddlu. Peidiwch dderbyn yr eitem na chytuno i'w dychwelyd i'r swyddfa.
- ✓ Golchwch eich dwylo cyn gynted ag y bo modd os ydych wedi cyffwrdd â sylwedd amheus.

#### Peidiwch â

- ✗ Gollwng yr eitem, na'i hysgwyd na'i thafu ymaith.

- × Ceisio agor y pecyn.
- × Plygu'r pecyn na'i byseddu er mwyn ceisio cael gwybod beth sydd ynddo.
- × Rhoi'r pecyn mewn tywod na dŵr.
- × Ei roi o dan fag tywod na dim byd arall trwm.
- × Rhoi'r pecyn mewn cynhwysydd ac eithrio un sydd wedi'i ddylunio'n bwrpasol at y dibenion hynny.
- × Trin y pecyn â'r dwylo yn fwy nag sydd rhaid.